



Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dyfed-Powys

Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011

Chwarter 4 2018/19 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad

Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSRA) 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddau o fewn pobl ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 PRSRA yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, Prif Gwnstabl, Panel Heddlu a Throseddau a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiad â'r Gorchymyn Protocol Plismona 2011 datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n ymdrin â phob agwedd ar y protocol y mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 61 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn yr OPCC, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 57 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr RAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder

Gwyrdd – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol


Ambr – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol

Coch – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddau ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter blaenorol.

Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch4 y flwyddyn ariannol 2018/19 (Ion/Chwe/Maw 2019)



Cymhariaeth statws RAG

NID oes gan un o'r camau gweithredu statws coch

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod mewn statws y chwarter hwn, cynnydd o 1 maes i wyrdd a gostyngiad o 1 maes o ambr



Er nad oes unrhyw feysydd penodol o bryder gwirioneddol gan ein bod ni o leiaf yn cydymffurfio'n rhannol ar bob maes gweithredu, gallai fod yn werth nodi os ydych chi'n edrych ar ganran y meysydd ambr mewn categori o'i gymharu â chyfanswm nifer y meysydd mewn categori, mae rhai yn sefyll allan:

17g – Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu - (5/7) 71% ambr – **mae hwn yn parhau'r un peth â'r chwarter blaenorol**

17h – Mynd i drefniadau cydweithio gyda chyrrff plismona Comisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill a phartneriaid - (2/3) 67% ambr

20a – Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostyngiad mewn trosedd - (2/3) 67% ambr

20c – Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn - (2/3) 67% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n ofynnol	Statws RAG	Diweddariad ar Gynnydd Mai 2019 (Ch4 Ion/Chwe/Mawrth)
Gosod y cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu a Throseddau sy'n gorfod ystyried y SPR	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddff Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Fe'i adolygir yn rheolaidd ac ailymwelir ag ef yn llawn y tro nesaf y bydd swydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cael ei hethol.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Fe'i adolygir yn rheolaidd ac ailymwelir ag ef yn llawn y tro nesaf y bydd swydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cael ei hethol.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddau wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddau; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddau ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae adolygiad ffurfiol o drefniadau llywodraethu SCHTh wedi'i gynnal ar y cyd gydag adolygiad yr Heddlu o'u trefniadau llywodraethu. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud i strwythurau i sicrhau llif effeithlon o wybodaeth i gefnogi craffu effeithiol. Mae'r strwythur newydd wedi'i weithredu o'r 1 Mehefin 2019.
		Datblygu adolygiad blynyddol o Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Adolygwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer 2019/20. Mae mân ddiwygiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. Cafodd y fersiwn diwygiedig o'r FfLIC ei gyfathrebu i'r sefydliad ym mis Ebrill 2019 yn dilyn cymeradwyaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona, ynghyd â dogfen Cwestiynau Cyffredin i hwyluso llywio'r ddogfen.
		Sefydlu amserlen blaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Oedi sylweddol wrth derfynu adroddiadau Panel Sicrwydd Ansawdd oherwydd oedi wrth dderbyn ymatebion gan yr Heddlu. Mae materion bellach wedi'u datrys a bydd tystiolaeth ar gael yn y chwarter nesaf. Cafodd ymholiadau'r Heddlu yn ymwneud â chanfyddiadau'r Panel eu datrys trwy hwyluso trafodaeth rhwng yr adran berthnasol ac Aelodau Panel. Effeithiodd hyn ar brydlondeb yr adroddiad yn cael ei derfynu, ond fe arweiniodd at ddealltwriaeth well o'r materion a adnabuwyd a phrosesu'r adran. Gwaith yn parhau i ddatblygu blaengynllun ar gyfer gweithgaredd craffu, a fydd yn barod o fewn

				Ch1 2019/20. Bydd hwn yn mynd i'r afael â mwy o risgiau a adnabuwyd ar gofrestr risgiau'r Heddlu.
		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu		Mae'r swyddfa wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan yr Heddlu a rhanddeiliaid ar gyfer sylw craffu ar themâu penodol, serch hynny mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod y gallant wneud sylwadau i'r Comisiynydd i ddylanwadu ar themâu craffu i'r dyfodol.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		Un adroddiad AEMHGTA cenedlaethol ac un lleol wedi'u cyhoeddi (Plismona ac Iechyd Meddwl; Codi'r Darnau ac Adroddiad Arolygu Cyfanrwydd Data Trosedd Heddlu Dyfed Powys) o fewn chwarter ac ymatebwyd o fewn y graddfeydd amser gofynnol.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Mae gwiriad iechyd protocol plismona bellach wedi'i sefydlu. Diweddarir hyn yn chwarterol gan staff yn SCHTh i gynrychioli pa weithgareddau sydd wedi'u cynnal i fodloni amcanion y cynllun heddlu a throseddu ac alinio â'r Gorchymyn Protocol Plismona 2011.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu sy'n cynnwys y Bwrdd Atebolrwydd Plismona sy'n gyfarfod cyhoeddus lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ychwanegol ceir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob pythefnos sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol wedi'u cysylltu â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Ymhlith yr eitemau agenda sefydlog y mae Cyllid ac Adnoddau Dynol Strategol.
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddydd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17d	Hysbysu penderfyniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Darparwyd gwybodaeth fanwl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod 2018/19 i hysbysu ei benderfyniad mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys seminar a oedd yn cynnwys y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio lle mynegodd y Prif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid sefyllfa gyfredol yr Heddlu a rhagweld yr heriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
		Gosod cynllun ariannol tymor Canolig		Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis

				Ionawr 2019
		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol		Rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 wedi'i gosod a'i hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Ionawr 2019
Penodi'r Prif Gwnstabl	17e	Penodi'r Prif Gwnstabl		Mark Collins wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd
Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17f	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		Amherthnasol
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17g	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliad Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl o adnoddau.
		Cydymffurfriad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Tîm Ystadau yn parhau i gael adnoddau penodedig i olrhain a gyrru gwelliant yn y maes hwn, mae sgorau misol yn y 70au ac 80au uchel yn ystod y tri mis diwethaf, ac mae'r prif faes ffocws ar hyn o bryd yn perthyn i Ddiffoddwyr Tân sydd ond yn hwyr oherwydd materion fetio, er mai risg lleiaf posibl sydd yn sgil hyn. Mae'r tendr M&E newydd yn cychwyn ym mis Mai 2019 a bydd yn cynnig sicrwydd a gwelededd pellach ar y meysydd ffocws a lliniaru ar risgiau allweddol.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Gan fod y ffigurau a ddarperir yn ffigurau blynyddol, mae'r crynodeb yn ymwneud â'r penawdau Paneli Solar; Biomas; Ôl-troed Carbon a Gwastraff yn ddi-newid ers y diweddariad a ddarparwyd yn ystod y chwarter diwethaf. Bydd y ffigurau hyn yn newid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac adroddir amdanynt pan fydd yr ystadegau ar gael. Bydd Grŵp Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yn cael ei ffurfio yn fuan, bydd y grŵp hwn yn cyfathrebu ar bob menter yn fisol ac yn gweithio'n agos gyda'r contractwyr Rheoli Cyfleusterau i sicrhau bod yr adran Ystadau yn cadw materion amgylcheddol/cynaliadwyedd ar frig eu agenda.

		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Mae'r swyddfa'n parhau i ddatblygu a monitro'r 2 grant allanol y chwarter hwn, gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o £257,041 gan y Swyddfa Gartref o dan y Gronfa Ieuencid Ymyrraeth Gynnar i ddatblygu prosiect sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae'r prosiect yn cynnig cyfres o ymyraethau a fydd yn canolbwyntio ar fannau problemus allweddol gan fynd i'r afael â diffyg ymyraethau cynnar a gweithgaredd ataliol pan fydd ffactorau risg sy'n gysylltiedig â Thrais Difrifol yn amlwg. Bydd y prosiect yn gweithio gyda 3 sefydliad trydydd sector allanol i gynorthwyo wrth gyflenwi'r ymyraethau. Dyfarnwyd cyfanswm o £9069 gan Lywodraeth Cymru i brynu citiau Bregusrwydd Trais Domestig, a fydd yn rhoi'r cyfarpar i ddiodefwyr ar gyfer eu cartrefi i wneud iddynt deimlo'n ddiogel yn dilyn digwyddiad o gam-drin domestig. Mae'r citiau yn cynnwys cyfarpar diogelwch megis larymau drws / ffenestr, cloeon a nodweddion diogelwch i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn parhau yn eu cartrefi eu hunain.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Mae polisi a gweithdrefn nawdd newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i sicrhau nawdd.
		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		Mae cofrestrau risg wedi'u diweddarau a llawer o'r risgiau wedi'u rhyddhau. Mae peth gwaith i'w wneud o hyd wrth wneud defnydd o'r cofrestrau BAU,
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae staff SCHTh yn ymgymryd ar hyn o bryd â Phroffiliau Datblygu ac Asesu lle bydd eu hamcanion ar gyfer 2019/10 yn cael eu gosod. Bydd y broses hon yn cael ei defnyddio i lywio'r cynlluniau hyfforddi a datblygu.
Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynw yr Heddlu a Throseddau eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill	17h	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â Gweledigaeth Plismona i Gymru		Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'i swyddogion statudol wedi mynychu 2 ddiwrnod gweledigaeth Cymru Gyfan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n canolbwyntio ar archwilio cyfleoedd cydweithredol pellach o fewn cyd-destun plismona Cymru gyfan. Mae cynnydd yn cael ei fonitro gan Grŵp Plismona Cymru Gyfan ar sail chwarterol
		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Mae 2 brosiect cydweithio eisoes wedi'u datblygu gyda 3 SCHTh a Heddluoedd eraill Cymru, y mae 1 ohonynt wedi bod yn llwyddiannus. Mae cydweithio wedi agor mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu prosiect ar y cyd yn y dyfodol a fydd yn cael ei archwilio.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu cytundebau cydweithio		Mae trefniadau llywodraethu'r heddlu yn cynnwys Grŵp Cydweithio'r Heddlu – cynrychiolaeth SCHTh ar y Grŵp hwn yw'r Prif Swyddog Ariannol a Chyfarwyddwr Ystadau. Mae'r Bwrdd Plismona'n canolbwyntio'n rheolaidd ar gydweithio – bydd yr un nesaf ym mis Mehefin 2019.

				Ymhellach, mae Bwrdd Plismona Cymru Gyfan yn derbyn diweddariadau chwarterol ar berfformiad gweithgaredd cydweithredol plismona yng Nghymru.
Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith	17i	Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu SCHTh		<p>Mae ein Strategaeth yn parhau ar ei ffurf ddrafft, er ein bod ni bellach wedi derbyn adborth gan y Pennaeth Staff, felly rhaid i ni neilltuo peth amser i derfynu'r ddogfen a'i chyflwyno i'r Comisiynydd.</p> <p>Er nad yw wedi'i therfynu, rydym yn cynnwys yr ymdriniaeth a ddiffinnir o fewn ein hymgysylltiad h.y. ymgysylltiad llawr gwlad lle'r ydym yn mynd at y bobl yn hytrach na disgwyl iddynt ddod atom ni. Rydym yn creu cysylltiadau o fewn amryw gymunedau / sefydliadau, er mwyn datblygu ein rhwydwaith o Lysgenhadon Cymunedol. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn adeiladu ar y rhestr gysylltiadau hon.</p> <p>Y Cynllun Gweithredu yw ein Rhaglen Cyfathrebu-Ymgysylltu ac rydym yn ei fonitro a'i ddiweddarau.</p> <p>Rydym yn parhau i fonitro blaenoriaethau'r Comisiynydd o ran ymgysylltu, ac wedi cael cyfarfod cadarnhaol gyda'r Comisiynydd, Pennaeth Staff ac unigolyn allanol annibynnol, i'n galluogi ni i ganolbwyntio ar nifer yn llai o feysydd ymgysylltu a chyfathrebu bob mis.</p> <p>Mae'r Swyddogion Ymgysylltu'n parhau i drefnu Dyddiau Ymgysylltu â'r Gymuned. Rydym hefyd yn ceisio cynyddu nifer y digwyddiadau ymgysylltu ad hoc yr ydym yn eu mynychu naill ai gyda'r Comisiynydd neu ar ei ran. E.e. Cyfarfod Trosedd Gwledig yn Hendy Gwyn ar Daf a Rali Ffermwyr Ifanc yng Nghaerfyrddin.</p>

	<p>Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh</p>		<p>Mae Catrin yn gweithio gydag Angharad Lewis ar adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p> <p>Rydym yn parhau i geisio cyrraedd cymaint o gymunedau â phosibl trwy ein hymgysylltiad. Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan, taflenni o fewn cymunedau, ac mae fersiynau electronig a phapur o Gylchlythyr y Comisiynydd yn cael eu dosbarthu. Rydym hefyd yn parhau i ymweld â gwahanol leoliadau. Ym mis Ionawr, trefnwyd digwyddiad amlasiantaeth yn Nhregaron, yn sgil gwaith Ymgyrch Cynefin. Rhoddom gyfle i breswylwyr a pherchnogion busnes gael dweud eu dweud ar faterion lleol – anghenion a phryderon. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd siarad â'r unigolion perthnasol h.y. yr heddlu, cyngor, cymdeithas dai. Gwahoddwyd pobl i ymweld â'r Neuadd Goffa ond fe wnaethom hefyd ymweld â nifer o fusnesau ynghyd â'r ganolfan i deuluoedd.</p> <p>Rydym yn cynnig dogfennau yn Gymraeg, yn Saesneg, ac yn ddwyieithog. Rydym yn hyrwyddo gwybodaeth/dogfennau ar-lein, rydym hefyd yn datgan sut y gellir gwneud cais am gopiâu papur.</p> <p>Rhaid i ni gynnwys fersiynau hawdd eu darllen o Gylchlythyr y Comisiynydd.</p> <p>Rydym yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, ac mae cwmpas y Fforwm Ieuenticid yn datblygu.</p> <p>Mae staff o fewn SCHTh wedi derbyn hyfforddiant Epilepsi a fydd yn ein cynorthwyo ni o fewn y swyddfa ac yn allanol.</p>
	<p>Darparu cyfleoedd i gymunedau lleol i hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau</p>		<p>O fewn y chwarter diwethaf, nid ydym wedi ymgymryd ag unrhyw arolygon. Roeddem yn bwriadu gwneud hynny o fewn cwmpas blaenorol Craffu Dwys Cyswllt Cyntaf, ond gan fod y maes y byddwn yn edrych arno wedi'i drafod a'i ddatblygu, nid ydym wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad hyd yma.</p> <p>Ym mis Ionawr, fe wnaethom serch hynny drefnu digwyddiad amlasiantaeth yn Nhregaron, yn sgil gwaith Ymgyrch Cynefin, lle rhoddwyd y cyfle i breswylwyr a pherchnogion busnes ddweud eu dweud ar faterion lleol – anghenion a phryderon. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd siarad â'r unigolion perthnasol h.y. heddlu, cyngor, cymdeithas dai. Roedd preswylwyr o ystadau tai lleol yn gallu eistedd i lawr gyda'r awdurdod tai a swyddogion heddlu lleol i drafod y pryderon a oedd ganddynt – byddai hyn wedi dylanwadu ar sut yr oedd y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi h.y. sut oedd yr ardal yn cael ei phlisma.</p> <p>O fewn y Cylchlythyr, gofynnwn i ddarllenwyr gysylltu os oes ganddynt unrhyw syniadau ynghylch cyfleoedd ymgysylltu.</p>

		Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon		Cynnydd yn ystod y chwarter hwn o ran cwynion yn ymwneud â chyllid/cyllidebau – mae hyn yn unol â'r cyhoeddiad praesept a chwynion a gynhyrchwyd yn holi sut y cytunwyd ar y praesept ac yn cwestiynu rôl y Comisiynydd yn y penderfyniadau hynny
		Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu		Oherwydd hysbysebu parhaus trwy fiwros gwirfoddol rydym wedi derbyn llif sefydlog o geisiadau gan ddarpar wirfoddolwyr. Mae'r rhain wedi'u prosesu yn effeithlon ac wedi cael effaith sylweddol ar y sylfaen wirfoddolwyr. Disgwylir mân welliannau pellach y chwarter nesaf oherwydd rhai recriwtiaid newydd sy'n aros am gadarnhau trwy fetio ar hyn o bryd.
		Darparu gwasanaeth effeithiol a hygyrch i ddiodefwyr a phobl fregus		Yn ystod mis Chwefror 2019 mynychodd y Tim Comisiynu ddiwyddiad hanner diwrnod a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i drafod datblygu eu strategaeth newydd a chynlluniau a blaenoriaethau i'r dyfodol yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar brif lwyddiannau'r strategaeth flaenorol a lle a sut yr oedd partneriaid yn teimlo y gallai'r strategaeth newydd (2019-21) wella ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma. Roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd y partneriaid a'r defnyddwyr gwasanaeth i helpu i lunio'r ffordd yr eir i'r afael â materion alcohol a chyffuriau yng Nghymru.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddefnyddio swyddogaethau swyddfa'r Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17j	Fel y nodir yn 17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n	17k	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		Wedi gwneud cais am Nod Ansawdd Agored a Thyloyw 2019. Mae hwn yn cael ei ystyried yn nod o ragoriaeth a byddai'n llwyddiant mawr pe bai'r swyddfa yn ei dderbyn, disgwylir clywed erbyn mis Ebrill.
		Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd		Mae Nod Ansawdd Tryloywder yn dystiolaeth o ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a pha mor hawdd yw i bawb cael mynediad ati
		Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu'n rheolaidd fel arfer cyn i unrhyw beth gael ei gyhoeddi, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un peth bob amser.

byw yn ardal yr heddlu i fynd i'r afael â pherfformiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl		Ymroi i hyrwyddo gwaith y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl		<p>Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus ar y cyd yn ystod y chwarter hwn. Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau eisiau ystyried y ffordd orau ymlaen gyda'r digwyddiadau hyn, i'w gwneud yn fwy effeithiol a buddiol i bawb. Penderfynwyd y byddwn yn gweithio gyda'r Prif Arolygydd McSweeney i ddatblygu ymdriniaeth gyda mwy o rôl Tim Plismona Bro, fel bod y cyhoedd sy'n mynychu yn derbyn gwybodaeth fanylach am blismona yn eu hardal.</p> <p>Ar ôl derbyn hyfforddiant ym mis Mawrth, mae'r tîm ymgysylltu a Chefnogaeth Weithredol wedi cynyddu ein cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol, ac wedi newid y ffordd yr ydym yn mynd ati er mwyn cael mwy o effaith.</p>
		Ymroi i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Wasanaethau wedi'u Comisiynu		<p>Yn ystod mis Mawrth mynychodd y Tîm Comisiynu ddiwyddiad briffio yn San Steffan, Llundain, yn canolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi i ddiodefwyr trosedd, yn enwedig y gwasanaethau hynny lle y mae ariannu yn cael ei ddarparu trwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Daeth y diwrnod â phartneriaid ynghyd ar draws gwahanol bartneriaethau i ddeall arfer gorau ynghylch sut y mae gwasanaethau'n cael eu cynnal a sut y maen nhw'n darparu cefnogaeth i ddiodefwyr. Roedd y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau ar y Gwasanaeth Llofruddiaeth ynghyd â sut y gall gwasanaethau diodefwyr ymgysylltu â diodefwyr mân ddiwyddiadau ar draws y DU.</p> <p>Hefyd, eisteddodd y Bwrdd Cyngori Comisiynu yn ystod mis Mawrth, a ffocws y digwyddiad hwn oedd y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaethau Troseddau leuenctid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fodd o hyrwyddo'r gwaith caled sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu trwy ariannu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ynghyd â gweithredu fel modd o graffu eu heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.</p>
Cydydffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	171	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau		Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi mynychu'r holl gyfarfodydd Heddlu a Throseddau, ynghyd â swyddogion statudol – Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol.
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddau yn unol â'u ceisiadau		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a'r SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon yn unol â'u ceisiadau. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolaeth ar y Panel Heddlu a Throseddau ac ar fforymau eraill megis Bwrdd Atebolrwydd Plismona a'r Cydbwyllgor Archwilio.
		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddau i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr.

Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol	17m	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		Nid oes gwaith wedi'i wneud ar hyn yn ystod y cyfnod Ion-Maw. Mae Claire Bryant wedi datblygu'r gwaith hwn ers hynny.
Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a chyfrifoldeb dros gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17n	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Derbyniwyd un cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl yn ystod y chwarter hwn – cwyn ydoedd nad oedd y Prif Gwnstabl wedi cyflenwi ar ei dair blaenoriaeth plismona. Er bod penderfyniad wedi'i wneud i beidio â chofnodi'r gwyn yn unol â'r Ddeddf Heddlu a Diwygio 2002 a Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012; mae penderfyniad wedi'i wneud i godi cwestiwn gyda'r Prif Gwnstabl ynglŷn â sut y mae'n hyfforddi swyddogion yr heddlu mewn perthynas â'i flaenoriaethau plismona yn y Bwrdd Atebolrwydd Heddlu nesaf (PAB) ar ddydd Mawrth 7 Mai 2019.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Ar hyn o bryd yn cynnal trosolwg o 5 achos ar ran unigolion
		Craffu'r ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Mae 'Protocol ac y Cyd' mewn perthynas ag Adolygu Ffeiliau Cwyn Achosion Caeedig wedi'i ddrafftio (08.04.19) a bydd yn cael ei anfon at y DPP Adran Safonau'r Heddlu, HDP er mwyn iddynt ei ystyried a chytuno arno, cyn dechrau ar y gwaith craffu. Gofynnir i Adran Safonau'r Heddlu hefyd ddarparu copiâu o'r holl ddogfennau gweithdrefnol sy'n cael eu cadw yn ymwneud â chofnodi a phenderfyniadau yn ymwneud â chwynion a honiadau.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu o fewn cwynion fel yr amlinellir yn y Ddeddf Heddlu a Throseddu 2017		Mae hyfforddiant Sancus wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 20 Mehefin 2019 ym mhencadlys Heddlu De Cymru
Ni ddylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Adolygwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (CGF) i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer 2019/20. Mae mân ddiwyddiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. Cafodd fersiwn ddiwygiedig o'r CGF ei gyfathrebu i'r sefydliad ym mis Ebrill 2019 yn dilyn cymeradwyaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona, ynghyd â dogfen Cwestiynau Cyffredin i hwyluso llywio'r ddogfen
Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff	19	Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		Adolygwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (CGF) i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer 2019/20. Mae mân ddiwyddiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar a llif gwybodaeth rhwng

				yr SCHTh a'r Heddlu.
		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		Mae'r holl staff yn ymwybodol o ddiogelu data a'r ddeddfwriaeth sydd yn eu rhwymo. Mae peth gwaith i'w wneud ar y "wybodaeth yr ydym yn ei chadw" a thacluso ein llwyfan pwynt rhannu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r polisi Cadw a gwaredu
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gweithredu		<p>Yn dilyn cwblhau'r gwaith asesu anghenion, a gynhaliwyd gan George Partnerships Ltd, bydd strategaeth gomisiynu a chynllun gweithredu'n cael eu dyfeisio, gan sicrhau bod cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod o ran sut y bydd pob gwasanaeth yn cael ei adolygu. Bydd hyn yn cynnwys ymdriniaeth fwy ymarferol tuag at fonitro cytundeb trwy gynllunio ymweliadau safle rheolaidd gan y Swyddog Comisiynu a Chefnogi Partneriaethau.</p> <p>Yna bydd y canlyniadau o'r asesiad anghenion yn cael eu bwydo i'r cynllun gweithredu ar gyfer yr SCHTh, gan roi manylion y cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau wrth symud ymlaen a pha gyfleoedd partneriaeth sydd ar gael i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.</p>
		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		<p>Cafodd y gyllideb Comisiynu ar gyfer 2018/19 ei therfynu gyda thanwariant o £48,000. Mae'r tanwariant hwn i gyfrif am 3% o gyfanswm y gyllideb ac mae'n cynnwys ychydig o danwariant o dan benawdau cyllideb unigol oherwydd rhai ffactorau bychain yn ymwneud â swyddi gwag o fewn gwasanaethau a gomisiynir yn fewnol, ynghyd â pheth arian dros ben heb ei ddefnyddio o ddechrau'r flwyddyn ariannol.</p> <p>Yn ystod y chwarter terfynol cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd i ddyrannu arian tuag at Eiriol, a fydd yn darparu eiriolaeth iechyd meddwl i unigolion sy'n gadael y system carchar. Amcan y gwasanaeth hwn fydd adnabod y rheswm pam y mae'r rhai sy'n gadael carchar yn cyflawni troseddau ar ôl gadael y carchar gan edrych ar dorri'r cylch troseddu. Yn ychwanegol, bydd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth i unigolion, gan eu cynorthwyo gyda natur ymarferol mynychu apwyntiadau gydag unigolion er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.</p>
		Gwerthuso gwasanaethau a gomisiynir i bennu elw cymdeithasol ar fuddsoddiad		Ym mis Mawrth 2019 cafodd asesiad anghenion ei derfynu a'i gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd yr adroddiad hwn yn benllanw adolygiad allanol a gynhaliwyd gan George Partnerships Ltd, yn gwerthuso'r gwasanaethau cyfredol a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ynghyd ag adolygu'r tirlun cyfredol o ran dioddefwyr a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

				<p>Roedd y darn hwn o waith yn cynnwys ymgysylltu ar raddfa fawr gydag arweinyddwyr gwasanaeth, partneriaid strategol, swyddogion heddlu a staff heddlu ynghyd ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar draws Dyfed-Powys. Adnabu hyn pa mor effeithiol yw gwasanaethau cyfredol o fewn Dyfed-Powys ynghyd ag asesu unrhyw fylchau posibl o ran gwasanaeth a allai fodoli, gan roi cyfle i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gomisiynu gwasanaethau newydd neu addasu'r gwasanaethau cyfredol i fodloni'r galw hwn. Yn ychwanegol, adnabu'r cyfleoedd ar gyfer gweithio cynyddol mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr mor effeithiol â phosibl.</p> <p>Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cynghori Comisiynu ar 16 Mai 2019, lle bydd yn cael ei graffu gan yr aelodau Bwrdd.</p>
Partneriaeth au Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		<p>Mae'r SCHTh yn y broses o ddatblygu proses grantiau newydd a fydd yn caniatáu i'r SCHTh ddarparu grantiau trosedd ac anhrefn i'r gymuned.</p>
		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn o fewn 2018/19		<p>Mae'r swyddfa'n parhau i ddatblygu a monitro'r 2 grant allanol y chwarter hwn, gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o £257,041 gan y Swyddfa Gartref o dan y Gronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid i ddatblygu prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc. Mae'r prosiect yn cynnig cyfres o ymyrraethau a fydd yn canolbwyntio ar fannau problemus allweddol gan fynd i'r afael â diffyg ymyrraeth gynnar a gweithgaredd ataliol pan fydd ffactorau risg sy'n gysylltiedig â Thrais Difrifol yn amlwg. Bydd y prosiect yn gweithio gyda 3 sefydliad trydydd sector allanol i gynorthwyo wrth gyflenwi'r ymyrraethau.</p> <p>Dyfarwyd cyfanswm o £9069 gan Lywodraeth Cymru i brynu pecynnau Bregusrwydd Trais Domestig, a fydd yn rhoi cyfarpar i ddiodeffwyr ar gyfer eu cartrefi i wneud iddynt deimlo'n ddiogel yn dilyn digwyddiad o drais domestig. Mae'r pecynnau'n cynnwys cyfarpar diogelwch megis larymau drws / ffenestri, cloeon a nodweddion diogelwch i sicrhau eu bod yn gallu teimlo'n ddiogel ac aros yn eu cartrefi ei hunain.</p>
		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		<p>Bydd proses werthuso yn rhan o'r broses grantiau newydd i sicrhau gwerth am arian ac enillion ar fuddsoddiad.</p>
Trefniadau cydweithio	20d	Fel y nodir yn 17h		

Cyfrifoldeb ehangach ar gyfer cyfoethogi cyflenwi cyfiawnder troseddol yn yr ardal	20e	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		<p>Parhaodd y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu yn weithredol yn ystod y chwarter hwn gyda'r Bwrdd yn cwrrd ym mis Mawrth i adolygu'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Troseddau leuencid ar gyfer Dyfed-Powys. Cyflenwir y gwasanaethau hyn gan bedwar Awdurdod Lleol ac maent wedi'u hanelu at gynig ymyraethau atal i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o droseddu.</p> <p>Rhodddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd yn esbonio gwaith y Gwasanaeth Troseddau leuencid ar gyfer cyfnod 2018/19 a rhodddwyd cyfle iddynt graffu ar drefniadau gwaith y Gwasanaeth Troseddau leuencid, gan gynnwys sut y maent yn ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Heddlu i dargedu eu hymyraethau. Holwyd y Gwasanaeth Troseddau leuencid hefyd ynghylch effaith bosibl trefniadau ariannu a sut y byddent yn ymdrin â newidiadau o'r fath o ran parhau â gwasanaeth a darpariaeth.</p> <p>Bydd y Byrddau hyn yn parhau bob chwarter, gyda darparwr gwasanaeth yn cyflwyno ym mhob cyfarfod, gan ganiatáu rhaglen graffu barhaus o'r gwasanaethau a gynigir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau.</p>
		Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn darparu gwerth am arian ac enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		<p>Cynhaliwyd pob cyfarfod adolygu cytundeb chwarterol ym mis Mawrth ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi craffu effeithiol ar fesurau cytundebol a chysylltiedig â pherfformiad i'w hasesu ac ar gyfer unrhyw broblemau sy'n codi i'w hadolygu a mynd i'r afael â hwy rhwng yr SCHTh a'r darparwyr gwasanaeth.</p> <p>Yn ychwanegol, cyfarfu Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed, is-grŵp Perfformiad a Chyllid i drafod y perfformiad a'r berthynas rhwng gwasanaethau triniaeth Haen 2 a Haen 3 ar gyfer unigolion yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin sylweddau ac alcohol. Cyflenwir y gwasanaethau hyn gan Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) - Haen 2 a Thîm Cymunedol ac Alcohol (CDAT) - Haen 3. Adolygodd y grŵp y llwybr atgyfeirio rhwng y ddau wasanaeth ac adnabod meysydd gwelliant a gafodd eu bwydo i'r Bwrdd Cynllunio Ardal ehangach i'w datrys. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gwell i'r rheini sydd angen cefnogaeth sylweddau ac alcohol yn Nyfed</p>
		Cyfraniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn chwarterol, ac yn ymroi i gyfrannu at drafodaethau'r fforwm

		<p>Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</p>		<p>Ymhlith portffolios cenedlaethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y mae: Aelod o'r Bwrdd Cwmni TGCh Plismona Aelod o'r bwrdd plismona digidol Aelodau o'r bwrdd cyfarwyddiaeth gwybodaeth a chudd-wybodaeth Grŵp arweinwyr dysgu Aelod o'r bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu</p>